CAIS AM BRYDAU YSGOL AM DDIM (Rhifyn 8)

I ymgeisio am brydau ysgol am ddim, arwyddwch a dychwelwch y ffurflen yma i'r cyfeiriad uchod neu i ysgol eich plentyn. Bydd oedi yn y broses os na fyddwch yn llenwi bob rhan o'r cais.

1 **CYMHWYSEDD:**

- **NID YW** Rhieni/Gwarcheidwaid sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith yn gymwys i ymgeisio am brydau ysgol am ddim

2 **RHIANT/GWARCHEIDWAD** gyda manylion cymwys:

Enw Llawn y Rhiant/Gwarcheidwad (yn cynnwys enwau canol). Rhowch gylch o gwmpas y teitl cywir.	Mr / Mrs / Miss
Cyfeiriad:	Cod Post:
Rhif ffôn i Gysylltu:	Dyddiad Geni'r Rhiant/Gwarcheidwad:

3

Rhif Yswiriant Cenedlaethol:									

PLENTYN/PLANT AG ANGEN PRYDAU YSGOL AM DDIM
Llenwch y golofn olaf os yw eich plentyn yn newid ysgol ym mis Medi e.e. Cynradd i Uwchradd.

Enw Llawn y Plentyn	Dyddiad Geni	Enw'r Ysgol y mae'n mynd iddi	Enw'r Ysgol Newydd mae'n mynd iddi ym mis Medi

Darllenwch y datganiad yma'n ofalus cyn arwyddo a rhoi dyddiad ar y ffurflen yma.
Rwy'n cadarnhau bod y manylion uchod yn gywir ac rwy'n deall bod yn rhaid i mi roi gwybod i chi am unrhyw newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio ar fy nghais.

Bydd Adran Prydau Ysgol am Ddim Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu eich cais am brydau ysgol am ddim a bydd yn rhoi gwybod i'r ysgol berthnasol/ysgolion p**erthnasol**.

Gallai'r Adran Prydau Ysgol am Ddim gysylltu ag Adrannau eraill o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid y Wlad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddilysu hawliad cychwynnol a pharhaus.

4 **ARWYDDWCH Y FFURFLEN YMA CYN EI DYCHWELYD I'R CYFEIRIAD UCHOD**

Llofnod y Rhiant/Gwarcheidwad …….. Dyddiad……..

Byddwn yn cysylltu â chi i ddweud beth yw canlyniad eich cais cyn gynted ag y bydd y ffurflen wedi cael ei phrosesu; tua 5 diwrnod gwaith i'w derbyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffordd y mae eich data'n cael ei ddefnyddio, neu os hoffech weld copi o'r data a gedwir amdanoch, cysylltwch â'r Uned

Gwybodaeth Gorfforaethol, **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG. Rhif ffôn 01443 864320/3041. E-bost: foi@caerphilly.gov.uk

Prydau ysgol am Ddim

Os yw eich plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mae'n golygu y gall fwynhau prydau iach, blasus heb y biliau a'r ffwdan o baratoi pecyn cinio. Mae nifer o blant eisoes yn bwyta prydau ysgol am ddim, ac mae'n bosibl y gallai eich plentyn fod yn gymwys i'w cael hefyd. Bydd prydau ysgol yn rhoi archwaeth at ddysgu ac yn ei helpu i gyflawni ei botensial/photensial llawn.

Nid oes dim sy'n iachach i'ch plentyn ac i gyllideb eich teulu na phrydau ysgol am ddim. Gan fod cogyddion proffesiynol yn coginio'r prydau i'ch plentyn, mae'n arbed y boen a'r ymdrech a'r costau o baratoi pecyn cinio bob dydd.

Gallai eich plentyn fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os oes gennych yr hawl i dderbyn un o'r canlynol:

- **Cymhorthdal Incwm**
- **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm**
- **Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm**
- **Credyd Treth Plant** (ond nad yw'r hawlydd na'i bartner ef/hi yn derbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw'r incwm blynyddol cyfun yn ôl asesiad yr HMIR ar ffurflen TC602 yn fwy na £16,190)
- **Yr Elfen Gwarant o Gredyd Treth Pensiwn.**
- **Ceisiwr Lloches o dan ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999**

Os ydych yn talu i'ch plentyn gael prydau ysgol, buasech yn gallu arbed tua **£427.50** y flwyddyn os yw eich plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Meddyliwch am yr amser y buasech yn ei arbed os yw eich plentyn yn gymwys ac yn cael prydau ysgol am ddim yn lle pecyn cinio, gallech arbed hyd at 190 o oriau'r flwyddyn, hynny yw, yr amser sydd ei angen i wneud pecyn cinio sy'n cyrraedd safonau maethol prydau ysgol - sy'n ychydig dros wythnos!

Mae ein tîm arlwyo'n cynnig dewis rhagorol o opsiynau cinio iach sy'n cael eu mwynhau bob dydd gan nifer sylweddol o'n disgyblion. Mae'n bosibl y gallai eich plentyn eu cael am ddim.

I sicrhau nad yw eich plentyn yn colli cyfle, llenwch y ffurflen ar gefn y llythyr yma ar gyfer eich plant neu ewch ar-lein: www.caerphilly.gov.uk neu os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'r Gwasanaethau Arlwyo drwy ffonio 01443 864055 (neu e-bostiwch: catering@caerphilly.gov.uk). Bydd aelod o'r tîm yn gallu eich cynghori.